TGAU

3000N20-1A

A20-3000N20-1A

**DYDD GWENER, 6 TACHWEDD 2020 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

**Uned 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**


2 awr

**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**

3000N201A 01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**



## DARN DARLLEN 2

### Beth yw chwedl?

Ydych chi erioed wedi clywed am y gair ‘chwedl’? Yr hen Rufeiniaid ddefnyddiodd y gair am y tro cyntaf a’i ystyr oedd ‘pethau i’w darllen’. Er hynny, nid pethau i’w darllen oedd chwedlau Cymru o’r cychwyn. Roedden nhw’n cael eu hadrodd ar lafar. Wrth i wahanol bobl adrodd y chwedlau, roedd y storïau’n cael eu newid bob tro wrth i bob un ychwanegu pethau gwahanol at y stori.

Mae chwedlau yn gymysgedd o ffeithiau a phethau sydd ddim yn hollol wir. Gyda chwedlau ymhell, bell yn ôl, mae’n anodd dweud i sicrwydd a oedd y cymeriadau hyn yn bobl go iawn oherwydd does gennym ni ddim tystiolaeth.

Mae llawer o lyfrau a ffilmiau am arwyr sydd yn gysylltiedig â phobl fel y Brenin Arthur, y Tywysog Madog a Buddug. Weithiau doedd y bobl ddim yn gwneud yr hyn mae’r stori yn ei ddweud neu mae’r digwyddiadau wedi cael eu newid i wneud y stori yn fwy diddorol neu’n fwy credadwy.

Heddiw rydym ni’n defnyddio’r gair Saesneg am chwedl, sef ‘*legend*’ pan fyddwn ni’n siarad am bobl enwog a’r hyn maen nhw’n ei wneud. Y dyddiau hyn, mae rhai yn disgrifio chwaraewr pêl-droed fel Gareth Bale neu arwr byd y ffilmiau, Anthony Hopkins, yn ‘*legend*’. Wrth gyfeirio atyn nhw fel hyn maen nhw’n dweud bod y bobl hyn yn enwog oherwydd eu sgiliau neu oherwydd y pethau maen nhw wedi eu gwneud.

Pan fyddwch chi’n darllen am chwedlau gallwch chi hefyd ddysgu llawer am eu lleoliad. Weithiau byddwch chi’n gwybod enwau nodweddion fel mynyddoedd, llynnoedd ac ynysoedd. Mae chwedlau yn aml yn rhoi esboniad ar enw lle, yn sôn am y digwyddiadau a’r bobl a arweiniodd at yr enw. Mae nifer o lefydd fel hyn yng Nghymru. Un enghraifft adnabyddus yw Beddgelert yng Ngwynedd. Yn ôl y chwedl fe gafodd Gelert, ci y Tywysog Llywelyn, ei gladdu yno wedi iddo gael ei ladd ar gam. Roedd y tywysog wedi meddwl mai Gelert laddodd ei fab ond amddiffyn y babi rhag blaidd wnaeth Gelert a dyna beth oedd y gwaed oedd arno, nid gwaed y babi.

3000N201A 03

## DARN DARLLEN 3

### Chwedl Onomastig

| **Beth yw chwedl onomastig?** | **Chwedl sydd yn esbonio enw lle** |
|---|---|
| **Enghraifft o chwedl onomastig** | Bryn Saith Marchog ger Rhuthun, Sir Ddinbych |
| **Beth yw'r stori y tu ôl i'r enw?** | Pan aeth Bendigeidfran, Brenin Ynys y Cedyrn, draw i Iwerddon i achub ei chwaer fe adawodd saith o'i farchogion gorau ar ôl i warchod yr ynys rhag ei elynion. Roedd Branwen yn cael ei chadw'n gaeth yn llys Matholwch, Brenin Iwerddon, er ei bod yn wraig iddo. Mae'r pentref hwn yn Sir Ddinbych wedi ei enwi ar ôl y saith marchog gafodd eu gadael ar ôl. |




© WJEC CBAC Cyf. 

**DARN DARLLEN 4**

# Mabinogi–ogi

**Criw Stwnsh sy'n cyflwyno Pedair Cainc y Mabinogi–ogi! Bydd digon o hwyl, chwerthin a chân... a rapio!**



**Pwy?** Branwen

**Beth?** Roedd Branwen Ferch Llŷr yn chwaer i'r brenin a'r cawr, Bendigeidfran.

**Y stori?** Roedd Bendigeidfran yn eistedd y tu allan i'r llys yn Harlech pan welodd longau Matholwch, Brenin Iwerddon, yn hwylio draw. Roedd gan Matholwch neges bwysig. Roedd e'n dymuno priodi Branwen. Roedd Efnisien, hanner brawd Branwen, yn flin ac fe wnaeth ddial ar y Gwyddelod drwy ymosod ar eu ceffylau.

Ar ôl y briodas, hwyliodd Branwen a Matholwch yn ôl i Iwerddon ac o fewn blwyddyn, cafodd eu mab, Gwern, ei eni. Ymhen blwyddyn arall, fe benderfynodd y Gwyddelod ddial ar Branwen am beth wnaeth Efnisien. Cafodd Branwen ei chadw yn garcharor a dim ond un ffrind oedd ganddi, sef aderyn drudwen. Dysgodd yr aderyn i siarad, a rhoddodd lythyr i'r ddrudwen ei gludo yn ôl i Gymru at Bendigeidfran.

Roedd Bendigeidfran yn drist iawn pan ddarllenodd y llythyr, ac fe aeth i Iwerddon ar unwaith i achub ei chwaer...




**5.35**
**BOB DYDD MAWRTH**
s4c.cymru/**stwnsh**

S4C

**DARN DARLLEN 5**

**Detholiad modern o chwedl ‘Branwen’ a gofnodwyd gyntaf yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Wedi i Bendigeidfran glywed bod ei chwaer wedi ei charcharu gan Matholwch, mae’n mynd ar frys i’w hachub. Roedd pobl Iwerddon wedi mynnu bod Matholwch yn dial ar Branwen ar ôl i’w hanner brawd, Efnisien, godi cywilydd arno.**

Roedd gwŷr y Brenin Matholwch yn Iwerddon yn edrych allan dros y môr a chawsant fraw o weld yr olygfa arswydus. Rhedodd y dynion at y brenin â’u gwynt yn eu dwrn. Doedden nhw ddim yn credu eu llygaid. Fyddai yntau ddim yn credu ei glustiau!

“Gwrandewch, Matholwch,” dywedodd y dynion dan grynu. “Mae gennym ni newyddion rhyfedd i chi. Rydym wedi gweld pethau rhyfedd iawn allan ar y môr wrth edrych tua Chymru. Mae coed ar y môr ac maent yn ... yn symud. Ia, SYMUD, syr! Mae’n anodd credu ond dyna welsom ni, yn wir! Dydyn ni ddim yn drysu. Sut gallai coed fod yn symud ar eu pen eu hunain? Pwy all esbonio’r olygfa ryfedd hon i ni?”

“Mae hynna’n rhyfedd. Beth yn y byd..? Dw i’n siŵr bod esboniad diniwed i hyn. Mae’n rhaid bod.”

“Ond, syr, nid dyna’r unig beth welsom ni. Mae ’na fynydd yng nghanol y coed ac mae hwnnw’n symud hefyd. Mynydd uchel, anferth yn symud drwy’r môr. Dw i wedi dychryn am fy mywyd!”

“Mae’n wir, syr! Fe welais innau o hefyd. Mae ’na *gefnen ar y mynydd a llyn mawr, glas bob ochr i’r gefnen...”

“A’r peth rhyfedda ... mae’r **cyfan** yn symud, syr! Welais i erioed goed na mynyddoedd yn symud o’r blaen. Amhosibl! Pa fath o hud a lledrith sydd ar waith yma? Mae angen gwneud rhywbeth ar fyrder, syr. Rydym ni mewn peryg!”

Meddyliodd Matholwch am y digwyddiad rhyfedd. Branwen! Roedd hi’n dod o Gymru. Galwodd amdani i weld a allai hi esbonio’r dirgelwch. Dywedodd hithau ar ei hunion mai pen ei brawd, Bendigeidfran, a welsai’r dynion yng nghanol y môr ac mai ei drwyn oedd y gefnen ac mai ei lygaid oedd y ddau lyn. Hwylbrennau llongau ei filwyr oedd y coed a welsant. Roedd wynebau’r gwŷr mor wyn ag eira. Llyncodd Matholwch ei boer. Roedd Bendigeidfran ar ei ffordd i Iwerddon. Byddai am ei waed. Ond sut cafodd wybod bod Branwen yn gaeth? Sut cafodd wybod ei bod yn cael ei chosbi am gam Efnisien?

“Torrwch y bont dros afon Llinon!” gwaeddodd Matholwch. “Dylai hynny atal Bendigeidfran rhag ein cyrraedd.”

Nid oedd hynny’n ddigon i atal y cawr craff, wrth gwrs, ac fe wyrodd dros yr afon gan weiddi, “Y pennaeth fydd yn bont i’w bobl!” Rhuthrodd milwyr Bendigeidfran drosto i ochr draw’r afon.

Suddodd calon Matholwch fel plwm. Roedd yn rhaid meddwl am gynllun i osgoi’r dial a’i wynebai...

**cefnen - llethr/allt/rhiw*

**DARN DARLLEN 6**

golwg 360

| Hafan | Newyddion | Chwaraeon | Celfyddydau | Blog | Swyddi |
|---|---|---|---|---|---|

## Deiseb yn galw am 'Bont Bendigeidfran' dros y Fenai

23 Medi 2018 am 12:34 Diweddarwyd 24 Medi 2018 am 08:13



*Pont Bendigeidfran*
*Llun: Benji Poulton*

Mae deiseb ar wefan y Cynulliad yn galw am godi pont ar ffurf cerflun o'r cawr Bendigeidfran fel trydedd groesfan dros afon Menai. Hyd yma, mae'r ddeiseb, a gafodd ei dechrau gan Benji Poulton o Benrhosgarnedd, Bangor, wedi denu bron i 200 o enwau. Mae'r ddeiseb yn gofyn yn benodol am i'r cynllun, a gaiff ei ddisgrifio mewn fideo, gael ei ystyried yn ffurfiol gyda'r cynigion eraill am drydedd bont a gafodd eu cyflwyno mewn ymgynghoriad yn gynharach eleni. Yn ôl y ddeiseb, byddai cynllun 'Pont Bendigeidfran' yn "ychwanegiad mwy priodol i'r ddwy bont fyd-enwog a geir eisoes yn y lleoliad hwn". Ar y sail honno, mae'r deisebwyr yn "galw am asesu'r cynnig amgen hwn yn llawn ochr yn ochr â'r opsiynau gwreiddiol a gyflwynwyd yn ymgynghoriad cyhoeddus diweddar Llywodraeth Cymru ynghylch trydedd bont dros y Fenai."

Daw stori Bendigeidfran o ail gainc y Mabinogi, Branwen Ferch Llŷr, ac ef oedd y cawr a estynnodd dros afon Llinon, yn Iwerddon i alluogi ei wŷr i gerdded drosto i achub Branwen a dod â hi yn ôl adref i Gymru. O'r chwedl hon y daw'r ymadrodd 'A fo ben bid bont' sy'n golygu yr hwn sydd yn bennaeth ddylai fod yn bont i gynnal ei bobl.